



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.gov.uk

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.uk

Cyngor Sir Caerfyrddin

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Adolygiad 2016 –2019

Rhagfyr 2019

		Tudalen
	Rhagair gan yr Hyrwyddwr Bioamrywiaeth	3
	Rhagair y Cyfarwyddwr	3
1	Crynodeb Gweithredol	4
2	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	4
3	Adnoddau Sir Gaerfyrddin	5
4	Cyd-destun Strategol	7
5	Gweithredoedd y Blaen-gynllun a gyflawnwyd 2016–2019	7
6	Adolygiad o'r gweithredoedd a gyflawnwyd	31

Rhagair gan yr Hyrwyddwr Bioamrywiaetg

Fel Hyrwyddwr Bioamrywiaeth credaf, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, fod gweithredu'r Blaen-gynllun hwn yn symbylu'r broses o wneud bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o waith polisi a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Gydag amser daw'n rhan fwy naturiol o'i gynlluniau, polisiâu a phrosiectau a gweithgareddau beunyddiol. Mae'n dda gweld y cysylltiadau cryfion a wnaed rhwng Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r pwys y mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei roi ar yr amgylchedd naturiol erbyn hyn.

Yn Sir Gaerfyrddin rydym yn ymwybodol o'n hamgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, o'r lluo o fanteision mae'n ei gynnig inni, a chymerwn o ddifrif ein cyfrifoldebau i ofalu am yr adnodd anadnewyddadwy hwn.

Cymeradwywyd

Philip Hughes, Hyrwyddwr Bioamrywiaeth ac Aelod o'r Bwrdd Gweithredol

Rhagair y Cyfarwyddwr

Mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a gyflwynwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnig cyfeiriad clir ar gyfer diogelu bioamrywiaeth ac ecosystemau cynaliadwy, sy'n rhywbeth rydym yn ei groesawu. Er bod hyn yn creu her mae hefyd yn darparu cyfleoedd i'r Cyngor Sir i ganolbwyntio blaenoriaethau ac adnoddau ar wella a chryfhau'r ecosystemau amrywiol, ac weithiau unigryw, yn Sir Gaerfyrddin. Credaf fod yr adolygiad hwn o Flaen-gynllun 2016–2019 y Cyngor yn dangos sut rydym wedi gweithio ar y cyd i wreiddio bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, ein cynlluniau a pholisiâu a'n harferion gwaith beunyddiol. Dros y 3 blynedd nesaf byddwn yn parhau i ddatblygu'r ffordd hon o weithio a monitro ein cynnydd. Fel corff cyhoeddus byddwn yn mynd ati o ddifrif i chwilio am gyfleoedd i ofalu am a chryfhau ein hamgylchedd naturiol, a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, a gwyddom am ei bwysigrwyd i lesiant pob un ohonom.

Cymeradwywyd

Ruth Mullen, Cyfarwyddwr, Adran yr Amgylchedd

1. Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddwyd yr adolygiad hwn i gydymffurfio â chyfrifoldeb cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O dan A6 y Ddeddf hon rhaid i bob corff cyhoeddus 'geisio gofalu am a chryfhau bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'. Yr enw ar hyn yw Dyletswydd A6 Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

Er mwyn dangos y cyflawnwyd y ddyletswydd hon, o dan Ddeddf yr Amgylchedd, mae'n ddyletswydd statudol fod rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru baratoi a chyhoeddi cynllun ar sut maent yn bwriadu cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau erbyn mis Mawrth 2017. Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu hefyd eu bod, erbyn Rhagfyr 2019, a phob 3 blynedd wedi hynny, yn adolygu eu cynllun ac yn cyhoeddi'r adolygiad hwnnw. Ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC), mae Llywodraeth Cymru yn gofyn iddo gyhoeddi'r Blaen-gynllun a'r adolygiadau 3 blynedd ar wefan y Cyngor. Cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei Flaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd cyntaf yn 2017, a hwn yw'r adolygiad cyntaf o'r cynllun hwnnw.

Aeth Sir Gaerfyrddin ati i ddatblygu a chyflawni ei Flaen-gynllun trwy ofyn i swyddogion edrych ar eu harferion gwaith, cynlluniau a phrosiectau ac adnabod cyfleoedd ar gyfer gofalu am a chryfhau bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, ar yr un pryd â chyflawni eu cyfrifoldebau ac amcanion eraill. Mae'r dull hwn yn aml yn arwain at newid yr hyn sydd ar adegau yn arferion gwaith a ddefnyddiwyd ers tro byd. Gall hyn gymryd amser. Er bod rhai meysydd gwasanaeth yn ei chael yn gymharol hawdd i wneud y newid hwn, mae'n llawer anoddach i eraill ac mae angen cefnogaeth reolaidd wrth wneud y newidiadau hyn. Credwn ein bod erbyn hyn yn gweld newid mewn arferion gwaith.

Caiff y 29 gweithred Blaen-gynllun a gytunwyd, fel y'u nodir isod yn Nhabl 2, eu monitro trwy System Monitro Gwella Perfformiad (PIMS) a cheir adroddiad arnynt gan y swyddog cyfrifol bob chwe mis. Caiff yr adroddiad hwnnw ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Mae'r Rheolwr Cadwraeth Wledig a'r Swyddog Bioamrywiaeth yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun a chynnwys holl swyddogion perthnasol CSC yn y broses honno. Rhaid i'r swyddogion hyn weithio'n rheolaidd gyda'i gilydd a chyda'r sawl sy'n gyfrifol am bob gweithred unigol, megis swyddogion Cynnal a Chadw Tiroedd a swyddogion Priffyrdd a Thrafnidiaeth. Er bod hyn yn cymryd amser mae'n hanfodol os yw arferion gwaith yn mynd i newid.

2. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Daeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gyfraith ar yr 21ain Mawrth 2016. Mae'n rhoi deddfwriaeth ar waith er mwyn gallu rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynol ac i sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn cefnogi cylch gorchwyl ehangach Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gweler isod) fel bod Cymru yn elwa o economi lewyrchus, amgylchedd iachus a gwydn a chymunedau bywiog, cydlynol.

Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Mae Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn mynnu fod rhaid i bob awdurdod cyhoeddus 'geisio gofalu am a chryfhau bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y mae hynny'n gydnaws â chyflawni'r swyddogaethau hynny mewn modd priodol'.

Bwriad y ddeddfwriaeth yw sicrhau y bydd awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn:

- Gwneud bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o waith polisi a gwneud penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus, gan ei wreiddio yn ei gynlluniau, polisiâu a phrosiectau a'i weithgareddau beunyddiol.
- Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, trwy gamau cadarnhaol fydd yn arwain at ofalu am neu gryfhau ein bioamrywiaeth.
- Datblygu cydnerthedd ecosystemau trwy ofalu am a chryfhau bioamrywiaeth.

Beth yw ecosystem gydnerth?

Mae ecosystem gydnerth yn un sy'n iach ac sy'n gweithio mewn ffordd sy'n gallu mynd i'r afael â'r pwysau a gofynion a roddir arni, ac sy'n gallu cynnig buddion dros yr hirdymor i ddiwallu'r anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol presennol. Mae ein hecosystemau yn rhoi inni ystod eang o wasanaethau a buddion. Mae angen inni gymryd pob un o'r rhain i ystyriaeth wrth inni wneud penderfyniadau ar sut i'w defnyddio, fel eu bod yn cynnig buddion niferus ar gyfer yr hirdymor. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'w gwerth cynhenid.

3. Adnoddau Sir Gaerfyrddin

Wrth adrodd ar ei Flaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn deall pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol. Mae bioamrywiaeth, ac ecosystemau cydnerth, yn rhoi inni lawer o'r pethau sy'n cynnal ein bywydau, trwy nifer o wasanaethau pwysig:

- **Darparu** – darparu bwyd (gwenith, pysgod ac ati), tanwydd (coed, glo), dŵr ffres, meddyginiaeth, tecstilïau.
- **Rheoleiddio** – gwaredu llygrion, rheoli llifogydd, amsugno carbon deuocsid (nwyon tŷ gwydr), atal erydiad.
- **Diwylliannol** – tirweddau hardd, ymdeimlad o berthyn, hamdden a thwristiaeth, ysbrydoliaeth ac ymchwilio, o blant ysgol i wyddonwyr.
- **Cefnogi** – gofalu am briddoedd a thwf planhigion.

Mae amgylchedd naturiol iach yn cynnal ein cymdeithas ac yn galluogi ein heconomi i ffynnu. Gall ein hadnoddau a'n hecosystemau helpu lleihau llifogydd, cyflenwi dŵr glân, gwella ansawdd aer a darparu deunyddiau ar gyfer adeiladu. Maent hefyd yn cynnig cartref i fywyd gwyllt o bob math, ac yn rhoi inni dirweddau rydym yn eu ffermio a'u trysori yn Sir Gaerfyrddin, gan wella ein llesiant ac ansawdd ein bywydau, a nhw yw'r adnodd naturiol y mae ein diwydiant twristiaeth a hamdden datblygol yn seiliedig arno.

Derbynnir er hynny fod yr amgylchedd naturiol o dan bwysau cynyddol am nifer o resymau gwahanol. Mae methu rheoli amgylchedd naturiol yn iawn yn cynyddu'r risgiau hirdymor i'n llesiant, ac yn lleihau gwerth ein hadnoddau naturiol - ein system gynhaliath naturiol. Dyna felly'r rhesymwaith dros sefydlu ein

Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd, sef adolygu ein harferion gwaith, cynlluniau a pholisïau i sicrhau eu bod yn cyfyngu unrhyw effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol a mynd ati o ddifrif i geisio gofalu am a chryfhau bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

3.1 Sut mae ein hadnoddau naturiol yn cefnogi'r saith nod llesiant (o [Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru](#))

<i>Cymru lewyrchus</i>	Mae adnoddau naturiol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gweithgarwch economaidd. Er enghraifft, mae twristiaeth bywyd gwyllt a gweithgareddau awyr-agored i Gymru yn darparu tua 206,000 o swyddi ac amcangyfrifir ei fod yn werth £6.2 biliwn. Yn 2013, bu i 3.5 miliwn a mwy o ymwelwyr â'n harfordir ddod â £602 miliwn i'r economi, a rhagwelir twf o 10%. Mae tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn denu 12 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, a'r rheini'n gwario £1 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau.
<i>Cymru gydnerth</i>	Mae bioamrywiaeth, mynyddoedd, gweundiroedd a rhosydd, glaswelltiroedd lled-naturiol, coetiroedd, mannau gwyrdd trefol, afonydd, nentydd, llynnoedd a gwlyptiroedd, yr arfordir ac ecosystemau morol oll yn cyfrannu at gefnogi gallu Cymru i addasu i newid yn yr hinsawdd.
<i>Cymru iachach</i>	Mae adnoddau naturiol yn gwneud cyfraniad sylweddol i iechyd corfforol a lles meddyliol pobl yng Nghymru. Er enghraifft, mae coed yn helpu i amsugno llygrwyr a gwella ansawdd yr aer, sydd yn gallu effeithio ar iechyd pobl os yw'n wael. Mae mynediad i natur a mannau gwyrdd yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol.
<i>Cymru fwy cyfartal</i>	Mae mynediad cyfartal i ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau diwylliannol yn cyfrannu at gydraddoldeb yng Nghymru. Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu mynediad cyfartal i bawb at fuddion llesiant a gynigir gan ecosystemau naturiol.
<i>Cymru o gymunedau mwy cydlynol</i>	Dangoswyd bod cynnwys cymunedau yn y gwaith o reoli eu parciau a'u coetiroedd lleol yn gwella cydlyniant y gymuned ac yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym wedi dechrau gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar barciau lleol.
<i>Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu</i>	Mae tirweddau wedi chwarae rhan arwyddocaol o ran datblygu arferion diwylliannol unigryw, megis technegau adeiladu lleol yn dibynnu ar ddefnyddiau lleol, ynghyd â chelf a llenyddiaeth leol benodol.
<i>Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang</i>	Mae'r amgylchedd yn darparu ein holl adnoddau o ran defnyddiau ond rhaid i ni sicrhau mai dim ond ein cyfran deg yr ydym yn ei defnyddio.

3.2 Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei [Gynllun Gweithredu Adfer Natur](#) (NRAP) ei hun, sy'n amlinellu ei ymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, Amcanion yr NRAP yw:

1	Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel.
2	Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli.
3	Cryfhau cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd wedi dirywio a chreu cynefinoedd newydd.
4	Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd.
5	Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro.
6	Rhoi fframwaith llywodraethiant ar waith a threfnu cymorth i'w gyflawni.

Yn Sir Gaerfyrddin bydd Cynllun Adfer Natur Lleol yn cael ei ddatblygu yn seiliedig ar amcanion y cynllun cenedlaethol a blaenoriaethau Datganiad Ardal y De Orllewin.

4. Cyd-destun Strategol

4.1 Cynlluniau a Pholisïau'r Cyngor sy'n cysylltu â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- **Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin** - cyhoeddwyd ym mis Mai 2018. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â rhai o'r prif faterion sy'n effeithio pobl a chymunedau'r Sir.
- **Strategaeth Gorfforaethol.** Mae strategaeth 2018–2023 yn cyflwyno'r cyfeiriad ar gyfer yr awdurdod lleol dros y bum mlynedd nesaf, gan ymgorffori ein hamcanion gwelliant a llesiant a ddiffinnir gan ddeddfwriaeth. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth y cyngor ar gyfer y dyfodol mewn 15 amcan newydd o dan bedair thema allweddol – cefnogi trigolion i ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus. Amcan 12 yw: *Gofalu am yr amgylchedd yn awr ac i'r dyfodol*.

Amcan 12 Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw'r prif gyswllt gyda Deddf yr Amgylchedd, ac mae amcanion yn cynnig cysylltiadau ychwanegol:

	Amcanion Llesiant	Cyswllt gyda Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Gaerfyrddin
2	Helpu plant i fyw bywydau iachus	Eilaidd
3	Parhau i wella cyraeddiadau dysgwyr i bawb	Eilaidd
6	Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	Eilaidd
8	Helpu pobl i fyw bywydau iach	Eilaidd
9	Cefnogi cysylltiadau da gyda chyfeillion, teulu a chymunedau mwy diogel	Eilaidd
12	Gofalu am yr amgylchedd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol	Arweiniol
13	Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	Eilaidd

Cynlluniau a Strategaethau eraill y Cyngor ddylai fod yn cyfeirio at Ddeddf yr Amgylchedd a dyletswydd A6, a'r weithred PIMS berthnasol yn Nhabl 2:

5. Blaen-gynllun – gweithredoedd a gyflawnwyd

Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf	
Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – 2015–2030	
Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033	Gweithred PIMS 13245
Strategaeth a Chynllun Rheoli Risg Llifogydd	Gweithred PIMS 12979

Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2016–2019	Gweithred PIMS 12978
Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019	Gweithred PIMS 12971
Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd	Gweithred PIMS 12974
Teithio Llesol – Sir Gaerfyrddin	Gweithred PIMS 12974
Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin 2017–27	Gweithred PIMS 12974
Llwybrau Diogel i'r Ysgol	Gweithred PIMS 12974
Drafft Gynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio	Gweithred PIMS 13054
Cynllunio Adfer Natur Sir Gaerfyrddin (yn cael ei ddatblygu)	Gweithred PIMS 12967

5.1 Sut y datblygwyd ac yr adroddwyd ar y cynllun gweithredu

Adnabod gweithredoedd is-adrannol

Datblygwyd y cynllun gweithredu cyntaf hwn gan ac ar gyfer Adran yr Amgylchedd trwy gyfres o weithdai a thrafodaethau gyda Phenaethiaid Gwasanaethau a chydweithwyr mewn pedair o'i his-adrannau. Cychwynnodd y rhain ar ddiwedd Tachwedd a mis Rhagfyr 2016. Gofynnwyd i bawb a ddaeth i'r gweithdai adolygu'r gweithgareddau roeddent yn gyfrifol amdanynt, a nodi pa rai ohonynt oedd â'r potensial i effeithio ar fioamrywiaeth a lle y mae cyfleoedd i roi sylw, trwy newid arfer gwaith, i'r Ddyletswydd A6 Bioamrywiaeth newydd a roddwyd i gyrff cyhoeddus gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yna danfonwyd y gweithredoedd a nodwyd at y Pennaeth Gwasanaeth a thimau perthnasol i'w cymeradwyo. Pwysleisiwyd fod rhaid i'r gweithredoedd hyn ddod o'r timau yn hytrach na chael eu gorfodi arnynt - bernir fod hyn yn hanfodol er mwyn gwreiddio arferion gwaith newydd.

Yna cafodd pob gweithred a gytunwyd ei hychwanegu at System Gwella Monitro Perfformiad (PIMS) y Cyngor ac mae llawer yn y broses o gael eu hintegreiddio gyda Chynlluniau Busnes Is-adrannol yn ôl y galw. Trwy ddefnyddio'r PIMS adroddir ar y gweithredoedd hyn bob 6 mis ym Mehefin a Rhagfyr bob blwyddyn, a chaiff yr adroddiad diweddar ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Cylch adrodd Ionawr PIMS ar y gweithredoedd Deddf yr Amgylchedd PIMS hyn yw sail yr adroddiad blyneddol i Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor ar ddechrau Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r cynllun gweithredu yn ddogfen fyw. Caiff gweithredoedd eu hadolygu a'u diwygio yn ôl y galw gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol amdanynt. Gellir ychwanegu gweithredoedd newydd wrth i drafodaethau gael eu cynnal gydag is-adrannau eraill perthnasol yn y Cyngor.

Defnyddiwyd cylch adrodd Mehefin 2019 ar gyfer gweithredoedd PIMS Deddf yr Amgylchedd y Cyngor wrth baratoi'r adroddiad hwn.

Credwn fod y drefn a ddefnyddiwyd wrth gyflawni Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd y Cyngor yn arddangos y ffyrdd canlynol o weithio fel y cyfeirir atynt yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Edrych ar yr hirdymor fel nad ydym yn effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain	Buom yn edrych ar wasanaethau ac arferion gwaith y Cyngor – ein gwaith craidd, a bydd y newidiadau a wnawn i'r arferion hyn yn cynnig buddion hirdymor
Deall gwir achosion y materion er mwyn eu hatal rhag ail-ddigwydd	
Gweithio mewn ffordd integredig fel ein bod yn edrych ar holl nodau ac amcanion llesiant gwasanaethau a phartneriaid eraill	Rydym wedi datblygu ein gweithredoedd Deddf yr Amgylchedd gyda'r timau cyflawni cyfrifol, gan sicrhau y gellir integreiddio'r gweithredoedd a nodir mewn arferion gwaith, a chyda pholisïau a chynlluniau eraill

Cydweithio – cydweithio gydag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy y gellir eu rhannu	Rydym wedi arddangos dull cydweithredol trwy weithio gyda'r sawl sy'n gyfrifol am wneud newidiadau i arferion gwaith
---	--

5.2 Rhaglen gweithdai Deddf yr Amgylchedd: diweddariad a blaenoriaethau ar gyfer 3 blynedd yn y tabl hwn

Tabl 1 Amserlen gweithdai a gynhaliwyd ar draws meysydd gwasanaethau Cyngor Sir Caerfyrddin 2016–2019

Adran	Is-adran	Dyddiad y gweithdy	Nodau a gytunwyd?	Sylwadau
Prif Weithredwr	Gweinyddiaeth a'r Gyfraith	Polisi a Phartneriaeth Gymunedol - Medi 2019	IE	Cynnwys Deddf yr Amgylchedd yn rhan o'r Asesiad Effaith Integredig mewn templedi ar gyfer pob adroddiad pwyllgor a gyflwynir i'r Cyngor a darparu cymorth ar gyfer cwblhau'r asesiad hwn
Cymunedau	Tai, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Gofal a Chymorth	Cartrefi a Chymunedau mwy Diogel - 26/02/2019	IE	Cyfarfod swyddogion tai i drafod prosiect peilot i edrych ar dorri porfa gwair mewn safle tai gwarchod yn Llanelli.
	Hamdden	01/06/2017	IE	Hamdden Awyr Agored/Mynediad i Gefn Gwlad/ Parciau Gwledig
Addysg a Phlant	Gwasanaethau Plant	Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid - 28/02/2019		Trafodaethau gyda'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid ac awgrymiadau ar gyfer gwaith partneriaeth mewn safleoedd yn Llanelli
Amgylchedd	Cynllunio/Mwynau	Cynllunio 10/1/2018 Gorfodaeth 14/6/2018 Mwynau 2/10/2018	IE	
	Eiddo	30/11/2016	IE	
	Priffyrdd a Thrafnidiaeth	7/12/2016	IE	
	Tiroedd a Glanhau	11/05/2017	IE	

	Gwasanaethau Gwastraff a'r Amgylchedd	Amddiffyn rhag Llifogydd 26/2/2018 Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol 30/11/2016	IE	
--	---------------------------------------	--	----	--

Dechreuwyd cynnal gweithdai i adnabod gweithredoedd i'w cynnwys yn y Blaen-gynllun ym mis Tachwedd 2016 fel y nodir yn Nhabl 1 uchod. Rhoddwyd gweithredoedd a gytunwyd ar system PIMS y Cyngor ac adroddwyd arnynt o fis Rhagfyr 2017, a phob 6 mis wedi hynny. Cylch adrodd Mehefin 2019 yw'r sail ar gyfer yr adroddiad hwn a cheir crynodeb ohono yn Nhabl 2 isod.

5.3 TABL 2 Gweithredoedd Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin a ddatblygwyd ac yr adroddwyd arnynt:

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
CYNNAL A CHADW TIROEDD				
PIMS 13043 Byddwn yn adolygu trefniadau torri porfa a wneir gan Cynnal a Chadw Tiroedd i edrych ar arbedion a buddion bioamrywiaeth. Byddwn yn nodi'r ardaloedd a reolir yn y ffyrdd canlynol: Torri rheolaidd – lle y bydd y torri'n llai rheolaidd ac yn cael ei wneud gyda llafnau uwch, fydd o fudd i bryfed peillio. Ardaloedd bywyd gwyllt – cânt eu torri'n llai rheolaidd	Gweithiodd y Swyddog Bioamrywiaeth gyda swyddogion cynnal a chadw tiroedd i ystyried pum safle peilot y mae'r cyngor yn berchen arnynt i weld sut ellid newid y drefn reoli er budd i bryfed peillio. Gwnaed llai o dorri porfa rhwng mis Ebrill a chanol Gorffennaf. Dangosodd hyn y problemau o weithio i newid trefniadau rheoli a phroblemau gyda chyfathrebu mewnol, a bu'r canlyniadau'n gymysg, ond cafodd seiliau trefniadau rheoli i'r dyfodol a'r angen i sefydlu ffyrdd newydd o weithio eu sefydlu.	Costau: - Disgwylir y bydd torri'n llai aml a dyddiadau dechrau hwyrach yn creu rhai arbedion ariannol. Buddion amgylcheddol: - Defnyddio llai o danwydd - Mwy o gyfleoedd i blanhigion glaswelltir flodeuo a chynnig ffynhonnell neithdar i bryfed peillio - Mwy o ddŵr yn ymdreiddio wrth i blanhigion fagu gwreiddiau dyfnach gan fod porfa'n cael ei dorri'n llai rheolaidd, sydd yn ei dro yn lleihau dŵr ffo.	- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel – mae gweithredwyr CSC yn deall sut a pham y gellir gwella gwerth glaswelltir i fioamrywiaeth trwy drefniadau torri porfa llai rheolaidd a mwy diweddar. - Gwella gwerth bioamrywiaeth glaswelltiroedd i bryfed peillio trwy newidiadau yn y trefniadau torri porfa	Darparwyd astudiaeth achos t.4 Crëwyd arwyddion i ddangos ardaloedd lle y newidiwyd trefniadau rheoli

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
		Effaith: Mwy o amrywiaeth mewn glaswelltiroedd a mwy o rywogaethau'n gallu blodeuo'n hirach. Naws fwy naturiol i'r ardaloedd sy'n cael eu rheoli.		
PIMS 13044 Adolygu'r defnydd o welyau blodau mewn ardaloedd ffurfiol ac edrych a ydynt yn addas i bryfed peillio ac a ddylid eu tyfu mewn compost di-fawn.	Ion 2019 Erbyn hyn defnyddir compost di-fawn Melcourt yn y gwelyau blodau. Mae angen gwneud mwy o waith i ystyried natur y gwelyau blodau, neu a ellir plannu planhigion lluosflwydd yn eu lle.	Costau: - Peth cynnydd yn y gost gan fod cynhyrchion di-fawn yn tueddu bod ychydig yn ddrutach Buddion amgylcheddol: - Llai o alw am gynhyrchion yn cynnwys mawn	- Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd - Llai o alw am gynhyrchion mawn a gwneud y defnydd o gynhyrchion eraill yn dderbyniol	
PIMS 13045 Wrth fynd i ysgolion i gytuno cynnwys Cytundeb Lefel Gwasanaeth a dewisiadau torri porfa, dylid trafod y potensial i reoli rhannau o diroedd ysgolion ar gyfer bioamrywiaeth, gyda chefnogaeth yr Adain Gadwraeth.	Cyfarfu'r Swyddog Bioamrywiaeth gyda dwy athrawes o Ysgol Gynradd Tre Ioan i drafod trefniadau rheoli tiroedd yr ysgol er mwyn gwella'r safle ar gyfer bioamrywiaeth. Lluniwyd cynllun rheoli syml. Cafodd hwn groeso da, ac mae tystiolaeth y gellir gwneud enillion mawr gydag ychydig iawn o fewnbwn. Arweiniodd y cyswllt hwn at gyfle i helpu gyda phrosiect arall yn yr ysgol.	Costau: - Ni ddisgwyllir fawr ddim newid i gostau rheoli. Buddion amgylcheddol: - Cynefinoedd mwy amrywiol yn nhiroedd yr ysgol, gwell cysylltedd ecolegol a chydnerthedd ecolegol - Crëwyd cyfleoedd i addysgu am ecosystemau Effaith: - Mwy o amrywiaeth mewn glaswelltiroedd a mwy o rywogaethau'n gallu blodeuo'n hirach. Naws fwy naturiol i'r ardaloedd sy'n cael eu rheoli	- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel. - Rheoli darn mwy o laswelltir ar gyfer pryfed peillio. - Gwell ymwybyddiaeth ymhlith staff addysgu.	Tystiolaeth: Darparwyd Cynllun Rheoli a ffotograffau
PIMS 13046 Ystyried newidiadau i drefniadau torri porfa ar dir	Cyfarfu'r Swyddog Bioamrywiaeth gyda Swyddogion Tai mewn tai	Costau: Ni ddisgwyllir fawr ddim newid i gostau rheoli.	Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud	

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
o gwmpas tai gwarchod/cartrefi henoed ac ati, yn rhan o adolygiad o'r contract gyda'r Adran Dai i wneud y gwaith hwn	gwarchod yng Nghlos Llanfihangel yn Dafen a chafwyd cyfle i gyfarfod â'r trigolion i drafod trefniadau torri porfa yno. Gwnaethant gytuno torri ychydig yn llai rheolaidd. Cafodd bancyn ffin a stribed o dir ar hyd y gwaelod ei adael heb eu torri. Mae'r borfa o gwmpas yr adeilad yn llawn rhywogaethau a byddai'n elwa o gael ei adael tan ganol Gorffennaf, ond nid oedd y trigolion yn awyddus ac ni allai ail gyfarfod eu perswadio. Byddai'n sicrhau werth arolygu safleoedd eraill i weld a ydynt hwythau'n llawn rhywogaethau ac yna gweithio i dynnu sylw at fuddion torri porfa'n llai rheolaidd	Buddion amgylcheddol: - Cynefinoedd mwy amrywiol yn y tiroedd, gwell cysylltedd ecolegol a chydnerthedd ecolegol - Crëwyd cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o ecosystemau a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu Effaith: - Mwy o amrywiaeth mewn glaswelltiroedd a mwy o rywogaethau'n gallu blodeuo'n hirach.	penderfyniadau ar bob lefel. - Mae gweithredwyr CSC yn deall sut a pham y gellir gwella gwerth glaswelltir i fioamrywiaeth trwy drefniadau torri porfa llai rheolaidd a mwy diweddar. - Gwella gwerth bioamrywiaeth glaswelltiroedd i bryfed peillio trwy newidiadau yn y trefniadau torri porfa	
PIMS 13047 Byddwn yn gofalu, mewn safleoedd a drosglwyddir i Gynghorau Tref a Chymuned, fod coed all fynd yn annïogel yn cael arolwg diogelwch (TreeAssured), gyda chymorth gan yr Adain Gadwraeth ac y defnyddir Gorchmynion Diogelu Coed yn ôl y galw	Cyfarfu'r Rheolwr Cadwraeth Wledig a'r Swyddog Bioamrywiaeth gyda'r Rheolwr Tiroedd a'r Uwch Syrfëwr Rheoli Asedau i drafod trosglwyddo asedau ar 11 Ionawr 2018. Mae system TreeAssured ar gyfer arolygon diogelwch coed yn cael ei hyrwyddo i Gynghorau Tref a Chymuned.	Dd/a	Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel.	Tystiolaeth: Darparwyd canllawiau a gynhyrchwyd ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned
PIMS 13050 Cylchfan Porth y Dwyrain yn	Cytunwyd y cynnig effeithlonrwydd hwn yng	Costau Disgwyllir cryn ostyngiad yn y	Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio	

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
Llanelli – edrych a allai ein Swyddog Tirwedd baratoi cynllun plannu syml fyddai'n isel ei gost, cynaliadwy, cynnal a chadw isel ac yn bodloni disgwyliadau'r Cyngor	nghyfarfod y cyngor ar 20/2/2018. Cynhaliwyd trafodaethau ar ddewisiadau plannu gyda swyddogion Cynllunio a Chynnal a Chadw Tiroedd. Gwneir y penderfyniad terfynol ar y trefniadau plannu o fewn 3 mis ac fe weithredir y drefn newydd erbyn y 1af Ebrill 2020 yn unol â'r cynnig a gytunwyd yn y gyllideb.	costau wrth i blanhigion lluosflwydd addas i bryfed peillio gymryd lle planhigion unflwydd. Llai o gostau llafur blynyddol hefyd unwaith y gweithredir y drefn newydd Buddion amgylcheddol: • Llai o alw am gynhyrchion garddwriaethol, a gwella'r ardal blannu ar gyfer pryfed peillio. Effaith: • arddangosiad o ddull mwy cynaliadwy o dirlunio trefol	bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel. • Bydd y cynllun a gynhyrchir yn fwy buddiol i bryfed peillio, ac yn yr hirdymor bydd yn lleihau costau gan na fydd angen mwyach i brynu ar gyfer gwelyau blodau	
PIMS 13052 Parc Howard. Gweithio gyda'r Grŵp Cyfeillion/Swyddog Tirwedd/Swyddog Bioamrywiaeth i edrych ar reolaeth y parc ac adolygu'r trefniadau ar gyfer bioamrywiaeth a gwella garddwriaeth yn gyffredinol yno. Bwriedir diwygio'r weithred.	Nid oedd y trafodaethau ym Mharc Howard yn gynhyrchio felly penderfynodd CSC weithio gyda Chyngor Tref Cwmaman yn Golwg yr Aman yn y Garnant. Y parc hwn oedd yr astudiaeth achos a ddefnyddiwyd yn yr Ardd Fotaneg gweler 13048	Costau • Dim costau ar gael eto. Buddion amgylcheddol: • Gwelliannau i'r parc fydd yn cryfhau cysylltedd a chydnerthedd ecolegol: trefniadau torri porfa fydd o fudd i bryfed peillio, gwella cyrsiau dŵr, plannu coed a llwyni • Effaith: bydd y parc yn gwella o ran ei werth i fioamrywiaeth a'i werth amwynderol cyffredinol	• Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel. • Cynnydd bioamrywiaeth allweddol: gwell cysylltedd ecolegol ar draws y parc ac ar hyd glan yr afon	Darparwyd astudiaeth achos – t 4.
13043- 13052 LLESIANT – Bydd y cyhoedd yn mwynhau gweld glaswelltir llawn blodau yn y llecynnau tir agored yn agos at eu cartrefi, ynghyd ag ymylon ffyrdd, a byddant yn gweld eu buddion ar gyfer pryfed peillio. Bydd plant yn elwa o diroedd ysgol mwy amrywiol a naturiol, a'r gobaith yw y byddant yn treulio mwy o amser yn yr ystafell ddosbarth awyr agored. Disgwylir rhai arbedion ariannol trwy dorri porfa yn llai rheolaidd. Arbedion ariannol trwy ddileu gwariant rheolaidd ar blanhigion gwelyau blodau, llai o gostau llafur a llai o gostau tanwydd ac o'r herwydd llai o allyriadau carbon o beiriannau torri porfa				

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
GWASANAETHAU HAMDDEN				
PIMS 13056 Datblygu cynlluniau rheoli bioamrywiaeth syml ar gyfer pob safle gwledig a reolir gan yr Is-adran Hamdden, a chysylltu'r cynllun â hamdden a rheoli adnoddau naturiol a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dyletswydd bioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd a chanllaw Caru Gwenyn Llywodraeth Cymru: Parc Gwledig Pen-bre, Parc Gwledig Llyn Llech Owain, Mynydd Mawr, Ynys Dawela, Llwybr Arfordir y Mileniwm ac ati.	- Crëwyd cynlluniau strategol rheoli cadwraeth 5 mlynedd ar gyfer pob safle, ac maent yn cael eu cyflawni gyda chymorth grantiau gan Lywodraeth Cymru. - Bydd trefniadau rheoli'r safleoedd hyn yn sicrhau bod eu budd bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i gryfhau a bod cydnerthedd ecosystemau yn cael ei hyrwyddo. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys adfer rhostiroedd, gwaith rheoli pyllau, rheoli glaswelltir llawn rhywogaethau a chynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr gymryd rhan.	Costau: Swydd tua £38,200 y.f. a gwasanaethau wedi'u contractio ar gyfer gwaith rheoli na ellir ei wneud o fewn y cyngor (ffigyrâu 2018/19 o grant Llywodraeth Cymru) Buddion amgylcheddol: - Mae Parciau Gwledig a Gwarchodfeydd Natur Lleol sy'n tueddu bod yn agos at gymunedau lleol yn cael eu rheoli mewn ffyrdd sy'n cynnal a chryfhau bioamrywiaeth ac yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, gan ddarparu llecynnau tir glas naturiol a hygrych - Caiff cysylltedd ecolegol ei ddatblygu - Gwneir gwaith monitro yn ôl y galw ac wrth i adnoddau ganiatáu Effaith: - Mae CSC yn mynd ati o ddifrif i reoli seilwaith gwyrdd er budd llesiant y cyhoedd a bioamrywiaeth	- Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli - Cryfhau cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd wedi dirywio a chreu cynefinoedd newydd - Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd - Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro - Cynnydd bioamrywiaeth allweddol: Rheolir cynefinoedd yn bennaf ar gyfer bioamrywiaeth a mynediad i'r cyhoedd, cynnal a chadw llecynnau tir glas naturiol. Gwell cysylltedd ecolegol ar draws safleoedd a gwella cydnerthedd ecolegol	Roedd y prosiectau a gyflawnwyd ar draws Parciau Gwledig a Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI) CSC yn 2018/2019 yn cynnwys 22 diwrnod gwirfoddolwyr cadwraeth ar safleoedd GNLI yn cynnwys GNLI Morlyn y Pwll, GNLI Twyni Tywod Pen-bre, GNLI Morfa Berwig, GNLI PN Ynys Dawela. Mae'r gwaith wedi cynnwys cael gwared â glasbrennau ymledol, gosod blychau pathewod, atgyweirio ffensys a chamfeydd, gwaith rheoli glannau afonydd ar gyfer llygoden y dŵr, plannu coed, monitro ar gyfer gweoedd bwyd cynrhonaidd britheg y gors, monitro llygod y dŵr a dyfrgwn, gwaith rheoli pyllau, sesiwn hyfforddiant rheoli stoc gyda Pont Cymru, monitro clwydfannau gaeaf ystlumod a safle tylluan ysgubor a gwaith atgyweirio llwybrau pren. 2. Cwblhawyd Llwybrau Meddwlgarwch Iechyd a Llesiant ar gyfer GNLI Twyni Tywod Pen-bre, PN Mynydd Mawr a PN Ynys Dawela a chwblhawyd Llwybr Cerdded Actif ar gyfer GNLI Twyni Tywod Pen-bre. Dosbarthwyd taflenni mewn lleoliadau gwahanol, gan gynnwys grwpiau rhagnodi cymdeithasol mewn meddygfeydd teulu. 3. Arweiniodd trafodaethau cychwynnol gyda swyddog hyrwyddo at strategaeth ar gyfer rhoi mwy o sylw

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
				i GNLI ar wefan y Cyngor 4. Gosodwyd 42 o flychau pathewod yn GNL Morlyn y Pwll gan Wirfoddolwyr Cadwraeth GNLI Sir Gaerfyrddin a chwblhawyd contract gyda JTJ Landscapes i gael gwared â glasbrennau helyg a bedw mawr o lawr y gors. Gwnaed gwaith rheoli cynefinoedd gan John Davies Contracting yn PN Ynys Dawela, yn cynnwys torri a chasglu ar gyfer cae 4, gwelliannau draeniad a gwelliannau i dracffyrdd yng ngorllewin y parc. Gwnaed gwaith rheoli pyllau yn PN Mynydd Mawr a phrysgoedio / teneuo dethol o gwmpas pwll 1 a 2, treillwyd 30% o bwl 2 a gosodwyd llifddor ar gyfer pwll 2 i godi lefelau'r dŵr 0.3m. 5. Gosodwyd y panel dehongli ar gyfer PN Ynys Dawela y tu allan i'r sinema ym Mrynaman ynghyd â 3 arwydd ar gyfer y GNL o'r dref. 6. Gwaith adfer rhostir a chorsydd ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain
PIMS 13057 Gyda'r timau perthnasol, adnabod anghenion hyfforddiant bywyd gwyllt ac ecoleg ac ystyried pa anghenion ellir eu cyflawni trwy rannu sgiliau a pha rai sydd angen hyfforddwyr allanol. Crynhoi mewn cynllun hyfforddiant, trefnu hyfforddwyr a chyflawni'r	- Dydd Llun Tach 19, 2018 - Cwrs Pryfed Peillio a Rheoli Glaswelltiroedd gyda Bumble Bee Conservation Trust. Mynychwyd gan 12 o staff y Gwasanaethau Hamdden - Mae staff hefyd wedi bod ar gyrsiau Archwiliadau Gweledol ar Goed Lefel 1 a chysiau clefyd (Chalara) coed ynn fydd o fudd iddynt wrth	Cost: fe'u cynhwysir yn y gyllideb hyfforddiant fel arfer Buddion amgylcheddol: - Gweithlu sy'n fwy ymwybodol o'r amgylchedd ac yn fwy ymgysylltiedig - Defnyddir y sgiliau a'r wybodaeth a ddysgwyd wrth reoli safleoedd, ac maent yn cyfrannu at y gwaith o drefnu digwyddiadau cyhoeddus a	Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro	

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
cynllun	wneud y trefniadau rheoli hirdymor priodol ar gyfer llecynnau coediog yn y Parciau Gwledig	dehongli'r safleoedd.		
PIMS 13058 Gofalu fod crwydrwyr yn gyfarwydd â chofnodi biolegol a chyflwyno cofnodion i Ganolfan Adrodd Biolegol Gorllewin Cymru yn Hendy-gwyn. Gall WWBIC ddarparu hyfforddiant	Cynhaliwyd BioBlitz ym Mharc Gwledig Pen-bre ym Mehefin 2018 gyda chefnogaeth Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, Cofnodwyr Sirol, Crwydrwyr a Phartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin. Danfonwyd Ap WWBIC at grwydrwyr ym mis Awst 2018 ac mae pob crwydrwr yn gwybod sut i ddanfon cofnodion at WWBIC	Cost – rhad ac am ddim Buddion amgylcheddol: - Gweithlu sy'n fwy ymwybodol o'r amgylchedd ac yn fwy ymgysylltiedig - Defnyddir y sgiliau a'r wybodaeth a ddysgwyd wrth reoli safleoedd - Effaith: mae'n datblygu tystiolaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd y safleoedd y mae CSC yn eu rheoli	Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro	
PIMS 13059 Ar ôl datblygu cynlluniau rheoli ar gyfer safleoedd, defnyddio arwyddion dwyieithog wedi'u lamineiddio i esbonio newidiadau yn y trefniadau torri porfa a newidiadau rheoli eraill i'r cyhoedd mewn ffordd wybodus. Datblygu arwydd prototeip	Darparu arwyddion/deunydd dehongli a'u gosod mewn safleoedd gwahanol	Cost: fesul arwydd yn cynnwys dylunio = £7.20 Buddion amgylcheddol: - darparu dehongliadau ar gyfer y cyhoedd lle y mae eu hangen Effaith: - mae'n portreadu CSC yn sefydliad sy'n mynd ati o ddifrif i reoli safleoedd ar gyfer pryfed peillio, ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd.	Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro	Darparwyd astudiaeth achos – t 6.
PIMS 13060 Adnabod anghenion am offer er mwyn cyflawni amcanion rheoli hirdymor ar gyfer cynefinoedd (yn	Peiriant torri a chasglu er mwyn rheoli darnau llai o laswelltiroedd llawn rhywogaethau yn fwy effeithiol, i'w brynu gyda grant y Cynllun	Cost: £29,900 Buddion amgylcheddol: gellir rheoli llecynnau llai o laswelltir llawn rhywogaethau yn	- Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli - Cryfhau cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer	\\ntcarmcc\cfp\Planning & Building Control\Biodiversity\Environment Act 2016\Machinery needed to improve biodiversity.docx 09/06/2017

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
unol â'r cynlluniau rheoli) mewn safleoedd hamdden ac adnabod anghenion hyfforddiant yn gysylltiedig ag unrhyw arfer rheoli neu beiriant newydd i'w ddefnyddio at ddibenion cadwraeth, a darparu hyfforddiant	Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) Llywodraeth Cymru. Rydym yn aros am gadarnhad y cafwyd cynnig grant gan bartneriaeth ENRaW	y Parciau Gwledig yn fwy effeithiol er mwyn diogelu cyfoeth rhywogaethau trwy dorri porfa ar yr adeg fwyaf priodol o'r flwyddyn a chael gwared â sgil-gynhyrchion. Buddion amgylcheddol: • Mwy o amrywiaeth rhywogaethau a chyfnodau blodeuo hirach yn ein cynefinoedd glaswelltir	cynefinoedd wedi dirywio a chreu cynefinoedd newydd • Cynnydd bioamrywiaeth allweddol unwaith y mae peiriannau ar gael, gwell rheolaeth ar laswelltir llawn rhywogaethau yn ein Parciau Gwledig	
PIMS 13061 Adnabod staff a fyddai'n elwa o gwrs gloywi ar Archwilio Coed a chysylltu gyda Steven Edwards i drefnu'r cwrs angenrheidiol	Cwblhawyd hyfforddiant gloywi ar Archwiliadau Gweledol ar Goed ar yr 20fed Chwefror 2019. 22 yn bresennol.	Cost: tua £25-35 fesul hyfforddai os caiff grŵp ei sefydlu Buddion amgylcheddol: • mwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff o sut ddylid rheoli coed o ran diogelwch, gan ddefnyddio system seiliedig ar risgiau, awgrymu dulliau yn lle cwmpo coed os ydynt yn addas a gwerth hen goed i fioamrywiaeth Effaith: • mae hyfforddeion yn fwy hyderus o ran cynnal arolygon diogelwch coed a phenderfynu'r dull rheoli mwyaf priodol ar eu cyfer	Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro	
13056 - 13061 LLESIAINT - Bydd y drefn gyffredinol yn gwella gwerth ein parciau gwledig ar gyfer bioamrywiaeth ynghyd ag ymwybyddiaeth ein staff a'r cyhoedd o ba mor bwysig yw'r ardaloedd hynny ar gyfer cefnogi bioamrywiaeth, a chyfrannu at lesiant y sawl sy'n eu defnyddio. Mae'r parciau yn cynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr chwarae rhan weithredol yn rheoli'r ardaloedd naturiol hyn, sy'n cynnwys dyffrynnoedd afonydd, glaswelltiroedd, coetiroedd a chynefinoedd arfordirol.				
PRIFFYRDD a THRAFNIDIAETH				
PIMS 12970 Torri Ymylon Ffyrdd –	Mae'r gwasanaeth wedi parhau i weithredu'r polisi	Gall toriadau hwyr olygu costau	• Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio	http://rllloydpr.co.uk/2018/06/12/annual-grass-cutting-gets-underway-in-

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
Parhau i weithredu'r polisi, cyflwyno sgwrs flynyddol ar y pecyn gwaith a gwneud darpariaeth ar gyfer ymylon ffyrdd sy'n cael toriad hwyr	cynnal a chadw ymylon ffyrdd, cyflwyno sgwrs flynyddol ar y pecyn gwaith a gwneud darpariaeth ar gyfer ymylon ffyrdd sy'n cael toriad hwyr ar draws y rhwydwaith priffyrdd. Bu rheoli ymylon ffyrdd hefyd yn destun ymchwiliad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd. Mae argymhellion y grŵp a wnaed ar y 4ydd Mawrth 2019 yn cynnwys: 2a Hwyluso mwy o welliannau amgylcheddol ar gyfer bioamrywiaeth, megis toriadau hwyr neu bob dwy flynedd, torri llecynnau dethol neu drefniadau rheoli priodol eraill. 2c Cynnwys gwybodaeth glir ar wefan y Cyngor gan gyfeirio'n benodol at ddiogelu a rheoli ymylon ffyrdd. Lluniodd y Swyddog Bioamrywiaeth y rhain ar ffurf Cwestiynau Mwyaf Cyffredin ac maent yn cael eu hystyried gan y tîm Priffyrdd ar hyn o bryd. Yn adran pryfed peillio y gwe-dudalennau bioamrywiaeth mae ffotograffau o ymylon ffyrdd a gwybodaeth gryno am reoli ymylon ffyrdd. Dylid cwblhau'r camau hyn erbyn 1/1/2020	ychwanegol os oes rhaid i gontractwyr ddod yn ôl i ardal i wneud darn cymharol fychan o waith Gall torri un ystod yn rhai o'r ardaloedd olygu costau is. Buddion amgylcheddol: Bydd torri bob dwy flynedd o fudd i rai ecosystemau glaswelltir a llwyni isel (e.e. rhostir), yn enwedig felly'r rhai sy'n blodeuo ar ddiwedd yr haf. Effaith: Mae contractwyr yn deall fod rheoli ymylon ffyrdd yn bwysig ar gyfer diogelwch ffyrdd a bioamrywiaeth. Rheolir ymylon ffyrdd mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y cynefinoedd i fywyd gwylt Arferai'r torri ddechrau cyn diwedd Mai ac erbyn hyn mae'n cychwyn yn ail hanner Mehefin neu'n hwyrach. Cafwyd rhai arbedion cost o ran llai o dorri e.e. un ystod yn unig a dorri erbyn hyn ar hyd ymylon ffyrdd lletach. Llai o allyriadau carbon o beiriannau torri porfa.	bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel. Cynnydd bioamrywiaeth allweddol: rheoli ymylon ffyrdd tua 6000km o hyd yn y sir mewn ffordd fydd yn gwella eu gwerth bioamrywiaeth. Bydd eu gwerth i bryfed peillio ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill yn gwella trwy dorri mwy diweddar, a bydd gwerth cynefinoedd tir prysg cyfagos yn gwella gan mai ystod 1m yn unig fydd yn cael ei dorri gan amlaf	Carmarthenshire/ http://democracy.carmarthenshire.gov.wales/documents/s21411/Report.html?CT=2 Tystiolaeth: darparwyd nodyn canllaw

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
PIMS 12971 Bydd yr adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn mynd i'r afael â dyletswyddau newydd a roddwyd i Awdurdodau Lleol o dan y Ddeddf. Caiff yr adolygiad ei gwblhau yn 2018	Mae'r ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) drafft wedi'i gwblhau erbyn hyn a chafodd yr holl ymatebion eu hystyried, gan gynnwys sylwadau gan y Swyddog Bioamrywiaeth. Bydd ROWIP yn mynd trwy'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Rhaggyfarfod y Bwrdd Gweithredol, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu. Dylid newid y dyddiad targed i 21/11/2019 i adlewyrchu amserlenni pwyllgorau.		Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel.	
PIMS 12974 Bydd Priffyrdd a Thrafnidiaeth yn gweithio gyda'r Adain Cadwraeth Wledig i adnabod ac amlygu cyfleoedd i ddatblygu a gweithredu seilwaith newydd fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gydnerthedd ecolegol	Yn dilyn penodiad Ecolegydd Prosiect mae gan y tîm Cadwraeth Wledig yr adnoddau erbyn hyn i gynnig cyngor manwl ar ddylunio a chyflawni cynlluniau priffyrdd er mwyn dangos fod dyletswyddau A6 CSC yn cael eu deall a'u cyflawni.	Cost: Fel canran o gost y cynllun cyfan, mae cost darparu ar gyfer bioamrywiaeth fel arfer yn fach, ond gall effeithio ar ba adeg o'r flwyddyn y gellir cyflawni'r cynllun Buddion amgylcheddol: Cyflawnir cynlluniau priffyrdd yn unol â deddfwriaeth a pholisi perthnasol. Caiff cynefinoedd a rhywogaethau eu diogelu. Ceisir effeithio cyn lleied ag y bo modd ar gynefinoedd a rhywogaethau, a chaiff camau lliniaru eu hintegreiddio yn y dyluniad o gychwyn y prosiect	- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel - Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli	- Cynllun llwybrau troed Rhydaman fel y'i cynlluniwyd, yn cynnwys datganiad dull ar gyfer gweithio mewn ardal â chanddi'r potensial i gynnal pathewod. Bydd tirlunio'r cynllun hwn (Gaeaf 2019/20) yn gwella'r cynefin trwy gynyddu nifer y coed cyll yn y rhodfa ar fin y ffordd - Mae cynllun llwybrau troed Tŷ Croes yn cael ei ddylunio i wella diogelwch ffordd i gerddwyr heb gael fawr ddim effaith ar goed aeddfed a chlawdd llawn rhywogaethau, tra'n sicrhau bod anghenion rhywogaethau gwarchodedig (moch daear a phathewod) wedi cael eu diwallu Darparwyd astudiaeth achos – t.1
12970 - 12972 LLESIAINT - Bydd y drefn gyffredinol yn arwain at seilwaith trafndiaeth wyrddach fydd o fudd i'r cyhoedd ac i fywyd gwyllt. Mae prosiectau'n mynd i'r afael â materion bioamrywiaeth o'r cychwyn cyntaf				

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
GWASANAETH CYNLLUNIO				
PIMS 12965 Cynnal gweithdai gydag Is-adrannau perthnasol yn adrannau eraill CSC i gynhyrchu gweithred/oedd i'r Is-adrannau hyn eu hymgorffori yn eu Cynlluniau Busnes ac adrodd arnynt trwy'r PIMS	Yn ystod y cyfnod 3 blynedd cynhaliwyd gweithdai gyda Rheolwyr Datblygu ac ym (Mehefin 2017) gyda Swyddogion Gorfodaeth (Hydref 2017) i amlygu dyletswyddau A6 Deddf yr Amgylchedd. Cynhaliwyd rhagor o weithdai gyda Mwynau ym mis (Hydref 2018), ac Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ym mis Chwefror 2018. Cynhaliwyd gweithdy arall ar ddyletswydd A6 ar yr 11eg Ion 2019 ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio ac ar gyfer asiantwyr cynllunio ar y 18fed Ion 2019 ac ar gyfer Aelodau Etholedig ar yr 20fed Mehefin 2019	Cost: dim Buddion amgylcheddol: Mwy o ymwybyddiaeth o ofynion deddfwriaethol dyletswydd A6 CSC, a'r polisiâu sy'n bodoli i gefnogi'r ffordd hon o weithio. Effaith: Mae meysydd gwasanaeth ar draws Adran yr Amgylchedd a thu hwnt wedi adnabod y cyfleoedd sydd ar gael yn eu cynlluniau, polisiâu ac arferion gwaith a fydd, o'u gweithredu, yn dangos fod CSC yn cyflawni ei ddyletswydd A6	• Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel.	
PIMS 12966 Cynhyrchu nodiadau canllaw ar rywogaethau gwarchodedig i'w defnyddio gan gydweithwyr i sicrhau ein bod yn gweithio o fewn y ddeddfwriaeth o ran rhywogaethau gwarchodedig ac er mwyn bod yn gydnaws â'n dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2016	Cynhyrchwyd nodiadau cynghori ar nifer o rywogaethau gwarchodedig a ysgrifennwyd ar gyfer swyddogion ac fe'u darparwyd ar gyfer swyddogion trwy ffeil mynediad agored ar system cynllun ffeilio'r Cyngor. Fodd bynnag, nid hwn yw'r lle gorau ar eu cyfer, a dylid eu darparu ar fewnrwyd y Cyngor. Mae angen gwneud hyn o hyd fel y gall mwy o swyddogion ddod i wybod amdanynt.	Cost: dim Buddion amgylcheddol: Cyfathrebwyd y canllawiau i'r gynulleidfa darged Effaith: Gweithlu mwy gwybodus, mwy o gapasiti i gyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth A6	• Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel • Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli	Nodiadau canllaw ar gael
PIMS 12967 Adolygu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth	Cafodd Rhan 1 Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin, sydd wedi'i lunio ar gyfer y	Cost: dim – gwaith craidd Buddion amgylcheddol:	• Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd • Diogelu'r rhywogaethau a	

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
Lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau newydd	cyhoedd/busnesau/cymunedau, ei baratoi a chafwyd ymgynghoriad mewnol arno a chyda swyddog Partneriaeth Biomamrywiaeth Cymru. Cymeradwywyd yr egwyddorion sy'n sail i gynnwys y cynllun gan y Bartneriaeth Natur. Caiff Rhan 2, sy'n mynd i'r afael â'r amcanion cenedlaethol a'u gweithrediad lleol, eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth Natur ar y 15fed Hydref.	Bydd y cynllun yn amlinellu strategaeth fydd yn cael ei chyflawni mewn partneriaeth i lywio adferiad natur yn Sir Gaerfyrddin Effaith: strategaeth bartneriaeth y gellir ei chyfathrebu i'r cyhoedd ac i sefydliadau eraill	chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli • Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro	
PIMS 12969 Bydd Adran yr Amgylchedd yn llunio dull integredig a hirdymor o gyflawni prosiectau ar Wastadeddau Llanelli. Adnabod a gweithio gyda phartneriaid a rhan-ddeiliaid e.e. Network Rail, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt, cymunedau lleol	Cafodd y gwaith o greu ffos 400+m ynghyd â banciau cysylltiol a gynlluniwyd yn gynefin i lygodyn y dŵr ar dir yn eiddo i CSC ger Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ei gwblhau. Gwnaed gwaith monitro ar y safle hwn a'r pwll cyfagos ym mis Mehefin 2019 a gwelwyd arwyddion o lygod y dŵr ar safle'r ffos. Mae angen gweithredu o hyd i symud merlod y teithwyr o safle'r pwll cyfagos - maent wedi torri trwy ffens a gollwng sbwriel yno. Mae trafodaethau ynghylch rheoli cynefinoedd yn safle datblygu tai cyfagos Machynys gyda'r datblygwr wedi symud ymlaen; fe gytunwyd y swm ac mae'r swyddog cynllunio'n gweithio allan y ffordd orau o symud y cytundeb yn ei flaen. Mae CSC yn parhau i ddarparu gwasanaethau rheoli gwlyptir yn GNL Morfa Berwig. Byddai'n	Cost: tua. £5,000 (Cam 2 – cyfraniad A106) Buddion amgylcheddol: Tua 800m o gynefinoedd ar gyfer llygodyn y dŵr mewn safle allweddol i'r rhywogaeth Effaith: Creu cynefin helaeth ar gyfer y rhywogaeth hon sydd o'r pwys mwyaf	• Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel • Budd bioamrywiaeth allweddol creu 800m o gynefinoedd ar gyfer llygodyn y dŵr yn un o'i phrif safleoedd yng Nghymru fydd hefyd yn creu gwell cysylltedd gydag ardaloedd eraill sy'n gynefinoedd addas. • Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli • Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd • Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro	Darparwyd astudiaeth achos - t1.

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
	ddefnyddiol arolygu'r pyllau a grëwyd ar gyfer y ffordd gyswllt i weld a oes arwyddion o lygod y dŵr yno. Mae angen o hyd i edrych ar gysylltedd trwy gwlfertau ffordd a rheilffordd yn ardal y Bynea. Fodd bynnag, bu'n anodd datblygu perthynas gyda Network Rail.			
PIMS 13245 Bydd yr Is-adran Gynllunio yn datblygu dull cyson o sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i gryfhau, a bod cydnerthedd ecosystemau yn cael ei hyrwyddo yn rhan o'r system gynllunio ac o fewn ei gweithgareddau Cadwraeth, Blaen-gynllunio Mwynau a Rheoli Adeiladu.	Caiff ceisiadau cynllunio eu hasesu gan ecolegydd cynllunio CSC i sicrhau, pan roddir caniatâd cynllunio, bod CSC yn cyflawni ei ddyletswydd A6. e.e. Cais S/38351 - y Cynllun Lliniaru Ecolegol ar gyfer Datblygiadau Harbwr Porth Tywyn. Mae'r cynllun yn rhoi sylw i ddymchwel clwydfa corystlumod o dan drwydded Cyfoeth Naturiol Cymru, trawsleoli ymlusgiaid (neidr ddefaid a madfall), a gwella a monitro'r safle dderbyn ym Mharc Arfordir y Mileniwm a reolir gan CSC, gweithio y tu allan i'r tymor adar yn nythu a gwaith unioni oddi ar y safle oherwydd colli cynefin mosaig agored ar dir a ddatblygwyd yn y gorffennol, ar ffurf cyfraniad ariannol tuag at gost rheoli Gwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig dros 25 mlynedd er mwyn darparu'r cynefin am byth.	S/38351 Cost: i'r datblygwr, cyfraniad i gostau rheoli'r GNL £137,500 (25 mlynedd o reolaeth) a chost gwaith ymlusgiaid (trawsleoli cynefin a gwaith cryfhau a monitro) Buddion amgylcheddol: Cafodd rheolaeth hirdymor y GNL ei sicrhau gan y cyfraniad ariannol hwn a chaiff gwaith rheoli cynefinoedd ei ariannu i sicrhau bod y cynefin mosaig agored yn cael ei reoli'n briodol. Gan ei bod yn GNL, mae'r dull rheoli hwn yn flaenoriaeth a bydd hefyd yn cael ei ddehongli ar gyfer ac yn cael ei fwynhau gan bobl leol a phlant ysgol. Effaith: Datblygiad sy'n arddangos y ddyletswydd A6 i gynnal a chryfhau bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau a'r GNL	- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel - Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli - Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd - Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro - Budd bioamrywiaeth allweddol: rheolir cynefin tir llwyd am byth ar safle sy'n eiddo i ac yn cael ei reoli gan CSC, ac a ddynodwyd erbyn hyn yn GNL, yn ogystal â chynefin a reolir ar gyfer ymlusgiaid ym Mharc Arfordir y Mileniwm. Camau lliniaru ar gyfer ystlumod	
PIMS 13048	Trosglwyddodd Llywodraeth	Cost: dim – gwaith craidd	Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a	Darparwyd astudiaeth achos - t1.

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
Paratoi canllawiau ar ddulliau rheoli tir sy'n gweddu i'r amgylchedd ar gyfer y Cyngorau Tref a Chymuned mwy a gynhwysir yn Neddf yr Amgylchedd o ran torri porfa a rheolaeth tir bioamrywiaeth y maent yn gyfrifol amdano	Cymru y canllawiau i Un Llais Cymru, sy'n cysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned ledled Cymru. Hefyd, cynhaliodd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, mewn partneriaeth gyda CSC, sesiwn ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned ac eraill ar sut i reoli llecynnau tir glas ar gyfer pobl a bywyd gwyllt ar y 27ain Mehefin 2019 yn yr Ardd Fotaneg, Roedd dros 50 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad oedd yn cynnwys cyflwyniadau ar ffyrdd amgen o reoli llecynnau tir agored cyhoeddus, teithiau tywys a sesiwn weithdy yn seiliedig ar barc yn Sir Gaerfyrddin. Erbyn hyn mae dau Gyngor Tref a Chymuned wedi cysylltu gyda CSC i gael help i baratoi'r polisi bioamrywiaeth y mae'n rhaid iddynt ei lunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd. Mae canllawiau'n ddefnyddiol hefyd wrth drafod prosiectau lleol gydag ymchwiliadau cyhoeddus.	Buddion amgylcheddol: Bydd Cyngorau Tref a Chymuned mewn gwell sefyllfa i gyflawni eu dyletswydd A6 Bioamrywiaeth a chyfrifoldebau'r Ddeddf Llesiant o ran rheoli'r tir y maent yn gyfrifol amdano Effaith: Mae'n fwy tebygol y bydd tir a reolir gan rai Cyngorau Tref a Chymuned yn cynnal a chryfhau bioamrywiaeth ac yn hyrwyddo cydnherthedd ecosystemau	dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel. Budd bioamrywiaeth allweddol: bydd mwy o reolwyr tir yn ymwybodol o dechnegau rheoli fydd yn gwella bioamrywiaeth yn hytrach na chyfrannu at ei ddirywiad	
PIMS 13054 Llunio Strategaeth Pryfed	Cafodd y cynllun strategol drafft ar gyfer pryfed peillio ar gyfer y	Cost: dim – gwaith craidd	Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio	Darparwyd cynllun strategol drafft ar gyfer pryfed peillio.

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
Peillio ar gyfer y Cyngor er mwyn cyfrannu at gamau cadarnhaol ar gyfer pryfed peillio ymhob agwedd ar waith y Cyngor. Gallai'r strategaeth hon gael ei mabwysiadu gan Gynghorau Cymuned, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a datblygiadau strategol ac ati.	sir ei baratoi a'i droi'n ddogfen ddylunio - a chynhyrchwyd pum cynllun rheoli ar gyfer safleoedd sy'n eiddo i CSC. Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan CSC cyn y gellir ei roi ar y wefan neu ei ddanfod at Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd nid yw'n ddogfen a gymeradwywyd yn llawn. Bydd prosiectau i'r dyfodol yn seiliedig ar amcanion y cynllun strategol, sy'n golygu ei bod yn bwysig y caiff ei gymeradwyo yn ystod 2019/20.	Buddion amgylcheddol: Cynllun y gellir ei ddefnyddio gan nifer o sefydliadau gwahanol ac sy'n esbonio sut ellir rheoli tir er budd pryfed peillio. Effaith: Bydd yn dibynnu ar gyflawni'r strategaeth	bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel. • Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli • Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd • Budd bioamrywiaeth allweddol: bydd mwy o dir yn cael ei reoli trwy ddefnyddio technegau fydd yn gwella bioamrywiaeth yn hytrach na chyfrannu at ei ddirywiad.	Darparwyd astudiaeth achos – t 4.
PIMS 13055 Chwilio am arian ar gyfer prosiect pryfed peillio i Lanelli, sy'n ceisio cynnwys elfennau yn cynnwys ysgolion, cymunedau, tai, Parc Arfordir y Mileniwm, Parc Gwledig Pen-bre, cynnal a chadw tiroedd, priffyrdd. Byddai'n cynnwys rheolaeth ymarferol (prynu pecyn gwaith a hadau blodau gwyllt), digwyddiadau cyhoeddus a gweithdai	Bu Ecologydd Graddedig yn gweithio gyda chrwydrwyr a thorwyr porfa ym Mharc Gwledig Pen-bre. Cafodd trefniadau torri llai rheolaidd eu parhau yn 2019, a gadawyd ardal ym Mharc Dŵr Sandy ym Mharc Arfordir y Mileniwm heb ei thorri tan ddiwedd yr haf, cafodd un arall ei thorri'n rheolaidd ac eraill bob tua 3 wythnos. Mae'r rhain yn cael eu monitro. Bydd yr arbrawf hwn yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu ar drefniadau torri i'r dyfodol. Fel gyda threfniadau torri porfa eraill ni fu heb ei broblemau o ran cyfathrebu, problemau offer a phrinder	Cost: dim – gwaith craidd Buddion amgylcheddol: Dull cydweithredol o ymchwilio buddion trefniadau torri porfa gwahanol i bryfed peillio a chyfle i drafod hyn gyda'r cyhoedd ac i gael adborth Effaith: Mwy o dir yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i bryfed peillio; gwella ymwybyddiaeth a chefnogaeth y cyhoedd. Gellir ei ddefnyddio yn enghraifft o sut allai hyn weithio i nifer o reolwyr tir gwahanol	• Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel • Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli • Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd • Budd bioamrywiaeth allweddol: bydd mwy o dir yn cael ei reoli trwy ddefnyddio technegau fydd yn gwella bioamrywiaeth yn hytrach na chyfrannu at ei ddirywiad. Esbonnir manteision y ffordd hon o weithio i'r cyhoedd	Tystiolaeth a ddarparwyd: Adroddiad monitro Tystiolaeth a ddarparwyd: Darparwyd arwydd y prosiect

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
	staff, ond yn gyffredinol bu'r prosiect yn llwyddiant a bydd yn parhau. Cafodd y defnydd o arwyddion dehongli yn y safleoedd hyn ei groesawu gan y cyhoedd. Hyd yn hyn bu cost y casglu yn ormodol, ond bydd prynu peiriant a thorri gyda grant Llywodraeth Cymru yn gwella trefniadau rheoli'r ardaloedd hyn ar gyfer bioamrywiaeth.			
• 12965 i 13055 LLESIANT - mae'r is-adran gynllunio yn arwain ar godi ymwybyddiaeth o sut all CSC gyflawni ei ddyletswyddau A6, trwy gyfathrebu gyda meysydd gwasanaeth eraill a thrwy gynghori ar reoli tir o fewn portffolio eiddo CSC ar gyfer bioamrywiaeth, ac yn yr un modd yn cynghori cynghorau tref a chymuned sut allant reoli tir, a fydd yn y pendraw o fudd i fioamrywiaeth. Bydd cymunedau Sir Gaerfyrddin sy'n defnyddio a mwynhau'r ardaloedd hyn yn gweld sut fydd newidiadau mewn trefniadau torri porfa (sy'n cael eu monitro) o fudd i bryfed peillio. Fe welant gynefinoedd yn cael eu creu fydd yn gwella safle allweddol i lygoden y dŵr. Byddant yn dyst i'r ffordd y gall ein seilwaith gwyrdd gyflawni amcanion bioamrywiaeth a chyfrannu at ecosystemau mwy cydnerth. Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd y newidiadau a awgrymir i'r drefn reoli yn arwain at arbed arian ond mae'n rhy gynnar i fesur y rhain ar hyn o bryd				
CYNLLUNIO EIDDO (YR AMGYLCHEDD)				
PIMS 12977 Er mwyn dangos fod CSC yn gwreiddio ei ddyletswyddau A6 yn ei ffyrdd o weithio o ran datblygu neu ail-ddatblygu safleoedd sy'n eiddo i / a reolir gan CSC, bydd Dylunio Eiddo yn monitro camau a gymerir i gryfhau bioamrywiaeth a gwella cysylltedd ecolegol yn nodweddion briffiau ar gyfer gwaith arolygu ecolegol ac mewn briffiau dylunio prosiectau, ynghyd	Fel rhan o'n proses ddylunio a gwaith comisiynu, rydym yn mynnu fod contractwyr ac ymgynghorwyr yn comisiynu arolygon ecolegol yn ôl y galw, gan gynnwys ymgynghori gyda thîm ecoleg y Cyngor ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol. Mae penodi ail Ecolegydd (i gychwyn ym mis Ebrill 2019) yn helpu sicrhau'r mewnbwn ecolegol angenrheidiol ac y caiff cynlluniau CSC eu monitro.	Cost: Costau Cyflog (yn cynnwys Blwydd-dal ac YG) ar gyfer swydd newydd £44,600 Buddion amgylcheddol: Mae cynlluniau CSC yn dechrau cael eu dylunio mewn ffordd sy'n rhoi mwy o sylw i faterion bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau o'r cychwyn cyntaf, sy'n golygu fod gwaith arolygu'n cael ei gynnal mewn pryd i gyfrannu at ddyluniad cynlluniau ac sy'n cydymffurfio â gofynion	- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel - Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli - Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd	Roedd rheolwyr y boelerdy yn Llys y Dderwen, Pont-henri (safle tai) yn gallu galw ar yr ecolegydd prosiect (EP) wedi iddynt sylweddoli fod ystlumod yn y boelerdy lle yr oedd problemau cynnal a chadw yn golygu fod rhaid gosod boeler newydd. Mae'r EP wedi gallu cynnig cyngor yn syth ar sut i gynllunio ac amseru'r gwaith atgyweirio er mwyn cael cryn lleied o effaith â phosib ar ystlumod, a chysylltu'n uniongyrchol â Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch deddfwriaeth rhywogaethau gwarchodedig a chyfrifoldebau cyfreithiol y Cyngor.

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
ag mewn prosiectau y rhoddir caniatâd cynllunio ar eu cyfer ac mewn prosiectau a gyflawnir ar y safle. Pan mae ecolegwyr CSC, yn y cam cysyniadol, yn adnabod cyfleoedd i gryfhau bioamrywiaeth a gwella cysylltedd ecolegol yn rhan o brosiect CSC ar safle penodol, y targed yw sicrhau bod 100% o gynlluniau o'r fath yn cynnig y buddion hyn.		cynllunio wrth i geisiadau gael eu datblygu.		Darparwyd astudiaeth achos: t.2
• 12977 LLESIAINT: Bydd prosiectau cynllunio eiddo CSC yn cyflawni dyletswyddau A6, ac o'r herwydd bydd safleoedd y maent yn gyfrifol amdanynt, trwy nodweddion dylunio priodol, yn creu buddion bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Gall hyn arwain at arbedion ariannol o gymharu â dulliau rheoli tir blaenorol. Bydd y drefn ddylunio hon o fudd i'r sawl fydd yn defnyddio'r safleoedd yn y dyfodol, ac yn ei gwneud yn hawdd iddynt elwa o ymgysylltu gweithredol gyda natur.				
EIDDO CORFFORAETHOL (ADFYWIO)				
PIMS 12978 Safleoedd sy'n cael eu cadw - Cynnal asesiadau bioamrywiaeth o'r safleoedd hyn ac adnabod y fioamrywiaeth a gynhaliat a'r cyfraniad a wnânt i gydnerthedd ecosystemau. Adolygu trefniadau rheoli'r safleoedd hyn.	Cynhaliwyd asesiadau bioamrywiaeth ar bum safle, e.e. Parc Dewi Sant, Parc Busnes Cross Hands, Parc Bwyd Cross Hands, Parc Busnes Capel Hendre, Parc Dafen. Mae argymhellion ar gyfer cynnal a chadw, gwella a rheoli safleoedd at ddibenion bioamrywiaeth yn cael eu gweithredu gyda Chynnal a Chadw Tiroedd ac adrannau perthnasol. Cynhelir adolygiad rheoli o'r safleoedd a ddewisir, ac mae potensial i ychwanegu rhagor o safleoedd. Bydd cyllid ENRaW, pan gaiff ei	Cost: dim hyd yn hyn, gwaith craidd Buddion amgylcheddol: Caiff tir CSC ei reoli mewn ffyrdd sy'n rhoi sylw i'w ddyletswydd A6 Effaith: Bydd safleoedd CSC yn cynnig gwell bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd fydd o fudd i fywyd gwylt a phobl	• Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel • Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli • Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd • Budd bioamrywiaeth allweddol: bydd mwy o dir CSC yn cael ei reoli trwy ddefnyddio technegau fydd yn gwella bioamrywiaeth yn hytrach na chyfrannu at ei ddirywiad.	

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
	gymeradwyo, yn helpu cymryd camau ym Mharc Dewi Sant, Caerfyrddin a fydd, trwy blannu coed a llwyni brodorol, yn cryfhau bioamrywiaeth y safle. Caiff glaswelltiroedd eu rheoli ar gyfer pryfed peillio trwy dorri porfa'n llai rheolaidd ac yn hwyrach. Bu'n anodd cysylltu â chydweithwyr prysur iawn yn adrannau eiddo a chynnal a chadw, ac mae angen rhagor o ymgysylltu cyn y gwanwyn nesaf.			
• 12978 LLESIAINT Bydd gwasanaeth Eiddo Corfforaethol CSC yn cyflawni dyletswyddau A6 ar dir mae'n ei reoli mewn ffordd fydd o fudd i fioamrywiaeth. Gall hyn arwain at arbedion ariannol o gymharu â dulliau rheoli tir blaenorol. Bydd y drefn ddylunio hon o fudd i'r sawl fydd yn defnyddio'r safleoedd yn y dyfodol, ac yn ei gwneud yn hawdd iddynt elwa o ymgysylltu gweithredol gyda natur				
GWASANAETHAU GWASTRAFF ac AMGYLCHEDDOL				
PIMS 12979 Amddiffynfeydd rhag Llifogydd – Datblygu ffyrdd o weithio sy'n rhoi sylw i faterion bioamrywiaeth. Adeiladu'r rhain i mewn i ddatganiadau dull ar gyfer gwaith a wneir mewn safleoedd unigol. Datblygu gweithdrefn ar gyfer contractwyr sy'n gwneud gwaith ar safleoedd i sicrhau eu bod yn gwybod am fioamrywiaeth y safle. Adolygu anghenion hyfforddiant ar gyfer	Cydsyniad Draeniad Llifogydd Cafodd canllawiau bioamrywiaeth i ymgeiswyr eu cwblhau ac maent yn cael eu defnyddio wrth ddylunio cynlluniau sydd angen Cydsyniad Draeniad Llifogydd. Danfonir canllawiau at ymgeiswyr gyda'r ffurflen gais.		- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel - Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli - Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd - Budd bioamrywiaeth allweddol: bydd mwy o dir dyfrol a glannau afonydd yn cael ei reoli trwy ddefnyddio technegau fydd yn gwella bioamrywiaeth yn hytrach na chyfrannu at ei ddirywiad.	Tystiolaeth a ddarparwyd: canllawiau i ymgeiswyr

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/ dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
swyddogion a chontractwyr a darparu ar gyfer anghenion hyfforddiant.				
PIMS 12980 Cymoni eich Cymuned. Bydd y Swyddog Bioamrywiaeth yn mynychu cyfarfodydd chwarterol ar gyfer rhan-ddeiliaid Cymoni eich Cymuned, er mwyn adnabod a datblygu cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd.	Mae'r Swyddog Bioamrywiaeth wedi mynychu cyfarfodydd chwarterol ar gyfer rhan-ddeiliaid Cymoni eich Cymuned ac wedi cyfrannu at y Cylch Gorchwyl, gan sicrhau bod y ddyletswydd Deddf yr Amgylchedd ac ystyriaeth i fioamrywiaeth yn rhan o amcanion y grŵp. Mae'r Swyddog Bioamrywiaeth wedi cyfarfod â'r Swyddog Cymoni eich Cymuned ac wedi cytuno i baratoi nodiadau canllaw ar gyfer y grŵp y mae'n gweithio ag ef. Mae'r Swyddog Bioamrywiaeth wedi cyfarfod dau o'r Cynghorau Tref a Chymuned ar y grŵp i drafod Deddf yr Amgylchedd a threfniadau rheoli parciau.	Cost: dim – gwaith craidd. Buddion amgylcheddol: Mae cydweithwyr yn Cymoni eich Cymuned yn ymwybodol o'u dyletswydd bioamrywiaeth A6 a sut allant gynnwys hynny yn y gweithgareddau a gyflwynant Effaith: Bydd Cymoni eich Cymuned yn cyflawni cyfrifoldebau A6	- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel - Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd	Darparwyd Amodau a Thelerau Cymoni eich Cymuned. Mae enghreifftiau o weithgareddau yn cynnwys: Gall pob sesiwn codi sbwriel a gynhelir achub dwsinau o famaliaid bychan rhag cael eu dal yn gaeth a'u lladd – ac mae'r mamaliaid bychan marw a ddarganfuwyd wrth wneud hyn yn dystiolaeth uniongyrchol o hyn. Mae sesiynau glanhau traethau wedi casglu cannoedd o fagiau plastig a fyddai fel arall wedi bod yn fygythiad i system dreulid mamaliaid morol. Mae gwaith clirio llwybrau yn cynnwys pentyrrau cynefin yn addas ar gyfer gaeafu mamaliaid ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn bychain.
PIMS 12981 Rheoli tir a reolir gan yr is-adran e.e. Wern Ddu a Mynwent Rhydaman; Cynnal asesiadau bioamrywiaeth o safleoedd a chynnwys asesiad o gyfraniad y safleoedd hyn i gydnerthedd ecosystemau; lle'n briodol, datblygu cynlluniau rheoli i	Gwnaed peth gwaith cynnal a chadw tiroedd yn Wern Ddu yn unol ag argymhellion bioamrywiaeth, sef strimio'r morlyn uchaf (yn dilyn arolwg adar yn nythu) a chynnal a chadw'r llwybr mynediad i'r morlyn uchaf. Mynwent Rhydaman, ni fydd unrhyw doriadau blynyddol yn	Cost: £3,000 yn 2019 ar gyfer costau rheoli tir yn ymwneud â chyflawni gwaith a gynlluniwyd. Buddion amgylcheddol: Rheolir Wern Ddu yn unol â chynllun rheoli syml. Cafodd y trefniadau torri porfa ym mynwent Rhydaman eu gwella ar gyfer pryfed peillio trwy dorri'n	- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel - Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli - Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd - Cynnydd bioamrywiaeth allweddol;	

Camau a gytunwyd	Camau a gyflawnwyd	Costau, Buddion ac Effeithiau	Amcan(ion) NRAP a gyflawnwyd; enillion bioamrywiaeth allweddol; adfer natur/dadwneud dirywiad	Tystiolaeth a ddarparwyd (e.e. cysylltiadau ag allbynnau)
ddiogelu a chryfhau bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau	yr ardal a gytunwyd.	llai rheolaidd. Cafodd y newidiadau rheoli hyn eu dehongli i'r cyhoedd trwy osod arwyddion	caiff glaswelltir yn Wern Ddu ei reoli'n bennaf ar gyfer bioamrywiaeth, yn cynnwys torri a chasglu hwyrach lle'n ymarferol	
12979 – 12981 LLESIANT Bydd ymgysylltu cyhoeddus gyda'r prosiectau Cymoni eich Cymuned yn cynnwys cyfleoedd i chwarae rhan weithredol mewn prosiectau sy'n cynnig buddion amgylcheddol a thrwy hynny'n gwella llesiant y sawl sy'n cymryd rhan. Rheoli Wern Ddu a Mynwent Rhydaman – cyflwyno trefn reoli fydd o fudd i fioamrywiaeth				

5.4 Gweithredoedd ychwanegol a gyflawnwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin na chynhwyswyd mohonynt yn ei Flaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd 3 mlynedd gyntaf 2016-2019

5.4.1 Gweithio ar safleoedd adeiladau lle y mae mawn: Mae Adran Fwynau CSC yn llunio canllawiau ar gyfer datblygwyr yn gweithio ar safleoedd yn cynnwys mawn. Er bod arolwg cynefinoedd Cam 1 Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi ardaloedd yn cynnwys mawn, nid ydynt wedi cael eu heithrio'n awtomatig rhag cael eu datblygu, a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru yw bod mawn yn cael ei drin fel gwastraff os oes angen ei symud oddi ar safle datblygu, sy'n golygu ei fod wedyn yn dod o fewn cyfrifoldebau rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Adran Fwynau Sir Gaerfyrddin yn darparu Gwasanaethau Cynllunio Mwynau ar gyfer naw o'r 23 awdurdod lleol yng Nghymru a chawsom brofiad o weithio ar safleoedd datblygu yn cynnwys mawn yn y sir. Maent mewn sefyllfa dda i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r mater hwn ar draws Cymru.

5.4.2 Templedi Pwyllgorau: Mae CSC yn adolygu ei dempledi ar gyfer pob eitem sy'n mynd i bwyllgor i'w penderfynu, a bydd yn cynnwys Asesiad Effaith Integredig (IAA) ymhob adroddiad. Pwrpas yr IAA yw codi ymwybyddiaeth o sut mae'r system ddemocrataidd, a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor, yn effeithio ar gyflawni'r Ddeddf Llesiant ynghyd â chyflawni ei ddyletswyddau A6 Deddf yr Amgylchedd. Gofynnir i awduron adroddiadau esbonio sut mae'r adroddiad yn dangos, lle'n briodol, sut y cyflawnir dyletswydd A6 y Cyngor. Mae swyddogion ar gael i gynghori awduron os ydynt yn ansicr am hyn ac angen arweiniad. Yn yr un modd mae'n rhaid i awduron adroddiadau nodi os oes unrhyw effeithiau cyfreithiol, ariannol neu adnoddau dynol gan y weithred a fwriedir.

5.4.3 Monitro gweithgarwch ystlumod ar ôl adeiladu Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin:

Bu adeiladu Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin yn brosiect CSC, ac fe'i cwblhawyd ar ddiwedd y Gwanwyn 2019. Mae'r ffordd yn croesi Nant Tawelan ac roedd cynllun y ffordd yn sicrhau bod y rhodfa glannau'r afon gwyrdd hwn yn cael ei ddiogelu, yn rhannol trwy gynnwys pont goncrit un rhychwant hir. Yn ogystal â chroesi'r nant, mae'r ffordd newydd hefyd yn mynd ar draws lôn werdd clawdd dwbl, ac roedd arolygon wedi dangos ei bod yn rhodfa cymudo bwysig ar gyfer ystlumod. Gan fod y gwaith o adeiladu'r ffordd ar ben, a'i bod wedi'i goleuo, penderfynwyd monitro gweithgarwch ystlumod ar hyd y lôn werdd a'r parth glan yr afon ym misoedd Awst a Medi 2019 i weld a fu unrhyw newidiadau arwyddocaol yng ngweithgarwch ystlumod. Dangosodd canlyniadau'r monitro

hwn fod y ddau leoliad, ym mis Awst, yn cael eu pasio gan niferoedd uchel o ystlumod, sy'n awgrymu nad oedd adeiladu'r ffordd wedi creu unrhyw effaith andwyol ar y pryd. Cadarnhaodd monitro mis Medi hyn o ran niferoedd yr ystlumod a gofnodwyd, a chofnodwyd hefyd bresenoldeb Ystlumod Pedol Mwyaf yn symud ar hyd parth glan yr afon, sef y cofnod cyntaf o'r rhywogaeth hon yn yr ardal.

Amlygodd y cyfle i fonitro rai pryderon ynghylch y cynllun goleuo, a chaiff hyn ei drafod gyda chydweithwyr Priffyrdd a Thrafnidiaeth i weld a oes cyfleoedd i wella hyn a lleihau ei effaith ar ystlumod.

5.4.4 Datblygu Cynllun Gweithredu clefyd (Chalara) Coed Ynn: Bydd CSC yn datblygu a chyflawni cynllun gweithredu clefyd (Chalara) coed ynn yn unol â chanllawiau gan y Cyngor Coed. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y swyddogion perthnasol ym mis Mehefin 2019. Un o'r camau i'w datblygu yw'r angen i adnabod safleoedd addas ar gyfer plannu coetiroedd a choed newydd fydd yn helpu gwneud yn iawn am golli'r coed ynn sy'n debygol o ddigwydd ar draws y sir.

5.4.5 Seminarau ychwanegol ar gyfer Asiantwyr ac Aelodau Etholedig ar Ddeddf yr Amgylchedd: Mae'r Is-adran Gynllunio wedi darparu gweithdai i Ymgynghorwyr ac Asiantwyr Cynllunio sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio, gan amlygu'r dyletswyddau mae Deddf yr Amgylchedd yn eu rhoi ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru ac esbonio beth mae hynny'n ei olygu o ran penderfynu ceisiadau cynllunio. Yn y gweithdai hyn cyfeiriwyd hefyd at Bolisi Cynllunio 10 Cymru sy'n amlinellu'r cyfrifoldebau A6 a roddwyd ar Awdurdodau Cynllunio a phawb sydd ynghlwm yn y gwasanaeth cynllunio. Cyflwynwyd gweithdy tebyg i Aelodau Etholedig.

5.4.6 Digwyddiad i Gynghorau Tref a Chymuned yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (gweler GWEITHRED 13048 uchod)

Cynhaliwyd y digwyddiad hwn o dan brosiect Tyfu'r Dyfodol (TD) Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth gyda CSC. Bodlonodd anghenion allestyn prosiect TD, a galluogodd CSC i gyflawni'r weithred hon, a hynny mewn ffordd oedd yn fwy effeithiol nac a gynlluniwyd yn wreiddiol. Pwrpas y digwyddiad oedd arddangos sut ellir rheoli llecynnau o dir agored ar gyfer amwynder a bioamrywiaeth. Roedd y 58 cynrychiolydd oedd yn bresennol yn cynrychioli Cynghorau Cymuned, Cynghorau Tref, CSC, Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Tân, Bug Life, Bee Wales, Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru. Roedd y cyflwyniadau'n cynnwys: Go to the Park - menter yn Burnley oedd yn hyrwyddo'r defnydd o'i pharciau tra'n profi dull newydd o reoli oedd yn lleihau costau ac yn hyrwyddo bioamrywiaeth; cynllunio ar gyfer bioamrywiaeth ac estheteg gyda phlanhigion lluosflwydd; menter Nid yw Natur yn Daclus Sir Fynwy; taith gerdded o'r Ardd Fotaneg i edrych ar ffyrdd gwahanol o reoli glaswelltir, a gweithdy yn defnyddio parc lleol yn astudiaeth achos ar gyfer cryfhau bioamrywiaeth. Cafwyd ymateb da i'r digwyddiad, a bwriedir cynnal cyfarfod adolygu ym mis Tachwedd 2019. Y gobaith yw y bydd y digwyddiad yn arwain at weithredu ymarferol mewn parciau lleol.

5.4.7 Penodi Ecolegydd Prosiect CSC: mae'r penodiad parhaol hwn yn hwyluso'r gwaith o wreiddio dealltwriaeth o ddyletswydd A6 ar draws yr awdurdod. Mae deiliad y swydd yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau'r awdurdod o ran prosiectau adeiladu a rheoli eiddo. Mae'r rôl yn arbennig o bwysig wrth sicrhau bod bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn cael eu hintegreiddio gyda chynllunio prosiectau o'r cychwyn, a bod penderfyniadau amhriodol ynghylch yr amgylchedd naturiol yn cael eu hosgoi. Gweler gweithredoedd PIMS 12974 ac 12977 yn Nhabl 2 uchod, y naill a'r llall yn arddangos mewnbyn gwerthfawr y swydd hon ym meysydd cynllunio a chyflawni prosiectau.

5.4.8. Cysylltu â'r cyhoedd/Cynghorau Tref a Chymuned

Ceir mwy a mwy o ddiddordeb mewn prosiectau amgylcheddol lleol gan y cyhoedd, prosiectau cymunedol a Chynghorau Tref a Chymuned ac mae'r Adain Gadwraeth yn treulio mwy o amser yn cysylltu â nhw i drafod y materion hyn. Bu'r canllawiau lleol a luniwyd ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer ymgysylltu a'r gobaith yw y bydd Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin yn cyflawni'r un diben. Mae angen inni feddwl am sut allwn ddefnyddio'r tudalennau bioamrywiaeth ar y wefan i gynnig gwybodaeth i bobl a chymunedau lleol. Bydd cael cymeradwyaeth y Cyngor i'r Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio yn hwyluso hyn ymhellach gan fod y ddogfen hon yn esbonio sut all pobl gymryd camau cadarnhaol yn lleol ac mae hefyd yn addas i'w fabwysiadu gan Gynghorau Tref a Chymuned.

6. Adolygiad o'r gweithredoedd a gyflawnwyd

6.1 A yw'r dull o gyflwyno'r Blaen-gynllun yn cyflawni'r amcanion?

Y dull a ddefnyddiwyd gan Sir Gaerfyrddin i ddatblygu a chyflawni ei Flaen-gynllun oedd gweithio tuag at wreiddio bioamrywiaeth a chyflawni dyletswyddau A6 CSC ar draws ei brosesau gwneud penderfyniadau, ei brosiectau, cynlluniau ac arferion gwaith. Gwneir hyn trwy ofyn i swyddogion edrych ar eu cyfrifoldebau unigol a chyfrifoldebau eu gwasanaeth a'u helpu i adnabod cyfleoedd ar gyfer gofalu am a chryfhau bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, ar yr un pryd â chyflawni eu cyfrifoldebau ac amcanion eraill, ac ar adegau gwneir bioamrywiaeth yn flaenoriaeth newydd. Mae'r dull hwn yn aml yn arwain at newid yr hyn sydd ar adegau yn arferion gwaith a ddefnyddiwyd ers tro byd. Gall hyn gymryd amser. Er bod rhai meysydd gwasanaeth yn ei chael yn gymharol hawdd i wneud y newid hwn e.e. Hamdden, mae'n llawer anoddach i eraill a phan nad yw'r newidiadau hyn yn dod yn naturiol i'r maes gwasanaeth, mae angen cefnogaeth ac anogaeth hirdymor arnynt wrth wneud y newidiadau hyn. Gan ein bod wedi cynnal gweithdai Deddf yr Amgylchedd ar gyfer swyddogion ac aelodau etholedig, y gobaith yw y bydd aelodau yn dechrau gofyn am dystiolaeth fod y ffordd newydd hon o weithio yn digwydd, fel sy'n digwydd erbyn hyn gyda Phwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd sy'n cael adroddiad ar gyflawni dyletswydd A6 CSC unwaith y flwyddyn. Fel y dywedwyd uchod, y bwriad yw y bydd rhaid i bob adroddiad i bwyllgorau CSC gyfeirio at gyflawni dyletswyddau A6, a bydd hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb cyfreithiol hwn. Caiff y gweithredoedd Blaen-gynllun a gytunwyd, fel y nodir uchod, eu monitro trwy System Monitro Gwella Perfformiad (PIMS) CSC a cheir adroddiad gan y swyddog cyfrifol bob chwe mis. Caiff yr adroddiad hwnnw ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Mae'r Rheolwr Cadwraeth Wledig a'r Swyddog Bioamrywiaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni a'i fonitro ac am gynnwys holl swyddogion perthnasol CSC yn y broses honno. Rhaid i'r swyddogion hyn weithio'n rheolaidd gyda'i gilydd a chyda'r sawl sy'n gyfrifol am bob gweithred unigol, megis swyddogion Cynnal a Chadw Tiroedd a swyddogion Priffyrdd a Thrafnidiaeth. Er bod hyn yn cymryd amser mae'n hanfodol os yw arferion gwaith yn mynd i newid.

Efallai mai prif gyflawniad y cynllun Blaenweithredu yw codi ymwybyddiaeth o'r angen i ymchwilio a bod yn gwbl ymwybodol o effaith unrhyw gynllun neu brosiect ar fioamrywiaeth ar gychwyn y prosiect. Gall Ecolegydd y Prosiect gynnig ymateb cyflym i gydweithwyr ar y materion a sut i fynd i'r afael â nhw. Nid oedd mor rhwydd gwneud hynny cyn gwneud penodiad i'r swydd honno.

6.2 Monitro'r gwaith o gyflawni'r Blaen-gynllun gan CSC

I grynhoi, gyda'r camau canlynol yn eu lle, mae amcanion Blaen-gynllun CSC yn cael eu cyflawni, ac mae'r gwaith o gyflawni'r cynllun yn cael ei fonitro:

- Ymgysylltu a chydweithio â swyddogion trwy sesiynau gweithdy, cefnogi swyddogion i newid arferion gwaith, monitro a myfyrio ar weithredoedd

- Integreiddio gweithredoedd Blaen-gynllun a gytunwyd gydag arferion gwaith, polisïau a chynlluniau, gan gynnwys Cynlluniau Busnes Is-adrannol
- Adolygu gweithredoedd, diweddaru targedau ac adrodd i PIMS bob 6 mis
- Adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Craffu ar gyflawni gweithredoedd
- Sicrhau bod pob adroddiad sy'n mynd i bwyllgorau'r Cyngor yn cyfeirio yn ôl y galw at Ddeddf yr Amgylchedd yn ei Asesiad Effaith Integredig

Mae CSC wedi rhoi ar waith y systemau angenrheidiol ar gyfer datblygu'n barhaus y ffordd y mae'n cyflawni ei Flaen-gynllun, ac mae Tabl 2 yn crynhoi'r ffordd y cyflawnwyd y gweithredoedd a nodwyd ym Mlaen Gynllun 2016–2019. Wrth i bobl ar draws y sefydliad ddod yn fwy a mwy cyfarwydd â'r ffordd newydd hon o weithio, derbynnir y daw'n rhwyddach i gyflawni gweithredoedd mwy niferus a mwy uchelgeisiol. Mae CSC yn parhau i adeiladu ar ei weithredoedd llwyddiannus, ac mae yn helpu gwreiddio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ofynion Deddf yr Amgylchedd ar draws yr awdurdod ar bob lefel.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio dull ymarferol o gyflawni ei Flaen-gynllun. Gan ddefnyddio ei PIMS mae'n monitro'r gweithredoedd y mae'r cynllun hwn yn eu cynnwys, gan sicrhau bod ei ddyletswydd A6 yn cael ei chydabod a'i deall ar draws yr awdurdod, a bod camau priodol yn cael eu rhoi ar waith, eu cyflawni ac yr adroddir arnynt.

6.3 Pa faterion bioamrywiaeth a gododd 2016–2019?

Mae clefyd (Chalara) coed ynn yn fater pwysig i CSC a bydd yn effeithio cyfran arwyddocaol o'r coed yn ein tirweddau ac yn effeithio ein coetiroedd. Rhan o bolisi clefyd (Chalara) coed ynn CSC fydd yr angen i adnabod a threfnu plannu coed a choetiroedd newydd i wneud yn iawn am y colledion hyn.

ACA Coedwig Carmel ger Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin yw'r coetir ynn mwyaf gorllewinol yng ngwledydd Prydain a gafodd y dynodiad hwn. Mae'n arbennig o bwysig oherwydd ei lleoliad, ac mae ei choed ynn yn dioddef o'r clefyd hwn. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'i gyfrifoldebau ei hun ynghylch y clefyd. Mae hefyd yn datblygu Cynllun Cyfathrebu fydd yn cynnig cyngor i reolwyr tir a bydd yn mynd i'r afael â'r angen hirdymor i blannu coed. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y coed iawn yn cael eu plannu yn y lleoedd iawn ac nad yw gwerth bioamrywiaeth presennol y safleoedd y bwriedir plannu ynddynt yn cael ei ddiystyru.

Dichon y caiff trefniadau ar gyfer cymorth amaethyddol i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru effaith arwyddocaol ar y fioamrywiaeth sydd ynghlwm wrth ein tirweddau amaethyddol. Mae tir amaethyddol a'r cynefinoedd bywyd gwyllt sydd ynghlwm wrtho yn cefnogi llawer o fioamrywiaeth y sir, ac mae gwerth y tir hwn i fioamrywiaeth yn fregus iawn yn wyneb newidiadau i'r gefnogaeth ariannol i amaethyddiaeth.

Ceir cydnabyddiaeth gyffredinol erbyn hyn fod afonydd yng Ngorllewin Cymru a'r bywyd gwyllt maen nhw'n ei gefnogi yn cael eu bygwth gan ddigwyddiadau llygredd amaethyddol. Mae'r digwyddiadau tywydd eithafol y mae'n ymddangos ein bod yn eu cael yn gwaethygu'r materion hyn gan fod cyfnodau o lawiad trwm iawn yn heriol iawn i'r sawl sy'n rheoli slyri ac ati. Mae CSC, mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, wedi cyflwyno proses yn 2019 o adolygu trefniadau rheoli dŵr ar ei ffermydd sirol yn Nyffryn Tywi.

6.4 Casgliadau ac argymhellion ynghylch cyflawni Blaen-gynllun 2016–2019

Defnyddiodd CSC ddull trefnus a phragmataidd o ddatblygu a chyflawni ei Flaen-gynllun 2016-2019. Mae wedi ceisio ymgysylltu a chydweithio gyda swyddogion ar draws yr awdurdod i ddatblygu'r gweithredoedd unigol y mae'r cynllun yn eu cynnwys. Er ei bod yn amlwg nad yw sawl gwasanaeth yn deall y

ffordd hon o weithio, mae'n wir hefyd ei bod yn anoddach i rai o'r timau adrodd ar y materion a nodwyd ganddynt yn ystod sesiynau gweithdy mewn ffordd ystyrlon. Mewn rhai sefyllfaoedd, cyflawnwyd y weithred ar lawr gwlad, ond mae'r trefniadau adrodd yn ddiffygiol. Er mwyn gwella'r sefyllfa hon, argymhellir:

- Y dylid parhau i gael sgysiau rheolaidd gyda'r sawl sy'n gyfrifol am weithredoedd unigol a'u rheolwyr llinell i danlinellu pwysigrwydd adrodd gwybodus ar weithredoedd. Mae sgysiau tebyg yn parhau gydag Aelodau Etholedig ac uwch swyddogion yn CSC gyda'r bwriad o wreiddio dyletswydd A6 ymhellach mewn arferion gwaith. Bydd y sgysiau hyn yn golygu hefyd y gellir adolygu a diweddarau geiriad y gweithredoedd. Byddant hefyd yn galluogi datblygu gweithredoedd newydd a mwy uchelgeisiol, gan mai un o nodau cyffredinol y Blaen-gynllun yw arddangos gwelliant parhaus yn y ffordd y mae CSC yn mynd i'r afael â'i ddyletswyddau A6.
- Fod y cyfraniad a wna swydd Parcmon Cadwraeth a Seilwaith Gwyrdd i gyflawni dyletswydd A6 CSC ac i'w amcanion llesiant yn cael ei gydnabod, ac y ceisir cael ateb mwy hirdymor i'w threfniadau ariannu am y rhesymau hynny.
- Y caiff gweithredoedd Blaen-gynllun PIMS eu hintegreiddio yn yr holl Gynlluniau Busnes Is-adrannol yn ôl y galw.
- Fod Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd yn parhau ar agenda Timau Rheoli Adrannol a Chorfforaethol a'r Pwyllgor Craffu, ac mae'r ffaith fod y timau a phwyllgorau hyn yn craffu'r dystiolaeth fod CSC yn parhau i wella'r ffordd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau A6.